**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**16 Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Gweithgarwch Arfaethedig ac Ailstrwythuro Bwrdd y Bartneriaeth |
| AWDUR: | David Price, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol<br>david.price3@powys.gov.uk |

## 1. Diben yr adroddiad.

1.1. Rhoi i Aelodau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ddiweddariad ynghylch gweithgarwch arfaethedig Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

1.2. Cyflwyno i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gynnig i ailstrwythuro Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

## 2. Penderfyniadau a geisir.

2.1. Cymeradwyo'r gweithgareddau newydd y mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn bwriadu eu cyflawni.

2.2. Cymeradwyo ailstrwythuro Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

## 3. Gweithgarwch Arfaethedig Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

Er mwyn symud gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ei flaen, mae'n bwysig nodi blaenoriaethau a chyflwyno adnoddau a strwythurau a fydd yn hybu'r gwaith o gyflawni ein nodau. I wneud hynny, rydym yn bwriadu ymdrin â'r canlynol:

3.1. Sefydlu clystyrau busnes ar gyfer sectorau.

Mae ein grwpiau clwstwr busnes yn cyd-fynd â'r sectorau sy'n flaenoriaeth i Tyfu Canolbarth Cymru, ac rydym wedi nodi dau sector ychwanegol hefyd, sef y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Sector Cyhoeddus. I gefnogi gwaith y grwpiau hyn ar gyfer y sectorau sy'n flaenoriaeth, rydym hefyd wedi clustnodi dau grŵp clwstwr cynorthwyol a fydd yn helpu i sicrhau newid yng nghyswllt anghenion o ran sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth.

Rydym yn cynnig bod pob grŵp clwstwr yn perchenogi rhannau perthnasol o'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau a'r Cynllun Gweithredu, yn adolygu data a pholisi ac yn argymell addasiadau i'r Cynllun lle bo angen. Bydd pob grŵp clwstwr yn

penodi cadeirydd i gynrychioli'r sector ar Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

| **Grwpiau Clwstwr Busnes Sectorau** | **Grwpiau Clwstwr Cynorthwyol** |
|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Darparwyr |
| Twristiaeth | Y Warant i Bobl Ifanc |
| Ynni | |
| Y Sector Cyhoeddus | |
| Trafnidiaeth | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod | |
| Digidol | |
| Menter | |
| Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi | |
| Cyflogaeth a Sgiliau | |

3.2. Data presennol a pherthnasol.

Rhan o rôl y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yw crynhoi a dadansoddi data a gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol.

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn bwriadu gwneud hynny drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n cynnwys tri cham:

1 – Gweithio gyda chwmni dadansoddi data, sy'n drydydd parti, a fydd yn darparu dadansoddiad trylwyr yn flynyddol o'r sectorau sy'n flaenoriaeth, yn nodi lefelau cyfredol sgiliau a gwaith recriwtio, ac yn nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a rhagolygon o ran twf ar gyfer pob sector.

2 – Bydd arolygon cyflogaeth a sgiliau ar gyfer y canolbarth yn cael eu crynhoi bob blwyddyn; bydd hynny'n darparu darlun o'r dirwedd o ran sgiliau a gwaith recriwtio ar gyfer y canolbarth.

3 – Bydd grwpiau clwstwr sectorau'r canolbarth yn adolygu'r holl ddata sydd wedi'i grynhoi ac yn darparu darlun arbenigol ar gyfer y sector dan sylw.

3.3. Argaeledd data.

Rhaid i ni sicrhau bod gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn weladwy ac yn dryloyw. I sicrhau ein bod yn gwneud hynny, rydym yn bwriadu creu gwefan ar gyfer y Bartneriaeth. Bydd y wefan yn rhoi trosolwg o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac yn nodi pwy yw aelodau'r Bwrdd a beth yw eu rolau.

Bydd y wefan yn fan lle gellir cael gafael ar ddiweddariadau rheolaidd ynghylch busnes a gweld cyfleoedd gan Lywodraeth Cymru i gael cyllid.

Bydd y wefan hefyd yn gartref i'r holl wybodaeth am y farchnad lafur, yr holl ddata a'r holl ganlyniadau arolygon a gesglir yn rhan o'r broses grynhoi y mae tri cham yn perthyn iddi.

Gallwch weld enghraifft o sut y bydd y wefan yn edrych ac yn gweithio drwy glicio ar y ddolen gyswllt isod (Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru).

Hafan – Arsyllfa Economaidd Gogledd Cymru (partneriaethsgiliaugogledd.cymru)

3.4. Blaenoriaethau'r dyfodol.

Mae'r cynllun cyfredol ynghyd â gwybodaeth leol wedi nodi sawl amcan allweddol y mae angen i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ganolbwyntio arnynt yn ystod y 18 mis nesaf. Felly, rydym yn cynnig y blaenoriaethau canlynol:

- Gwella cydberthnasau rhwng addysg a chyflogwyr.
- Gwella'r wybodaeth a'r arweiniad a gynigir i bobl ifanc.
- Creu llwybrau cyflogaeth a hyfforddiant a chyfleoedd o ran profiad gwaith, gan gynnwys prentisiaethau.
- Gwella mynediad i hyfforddiant, addysg a chyflogaeth.
- Gwella dealltwriaeth o gyfleoedd, a mynediad i gyfleoedd, ym maes Sero Net.
- Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gael cyllid.
- Rhoi sylw i'r Gymraeg.
- Diweddaru Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau a Chynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

3.5. Cynllun gwaith.

Er mwyn monitro ein cynnydd ar sail yr amcanion allweddol, mae'n bwysig gweithredu dogfen fframwaith a fydd yn dwyn tîm, grwpiau clwstwr a Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i gyfrif. Bydd hynny hefyd yn sicrhau cynnydd tuag at gyflawni ein nodau.

I sicrhau ein bod yn gwneud hynny, rydym wedi creu templed sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, fel pwynt 9.2 Cynllun Gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

## 4. Ailstrwythuro Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

4.1. Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd 49 o aelodau sy'n cynnwys amryw gynrychiolwyr o awdurdodau lleol, y byd addysg, addysg bellach ac addysg uwch, grwpiau cynghori, a Heddlu Dyfed-Powys. Dim ond 7 cyflogwr o'r sector preifat sy'n cynrychioli 4 grŵp sy'n flaenoriaeth, a nodwyd drwy gynllun y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a thrwy Tyfu Canolbarth Cymru.

4.2. Nid yw strwythur presennol y Bwrdd yn hybu trafodaeth drylwyr â ffocws, sy'n gallu nodi a gweithredu atebion ar gyfer y rhanbarth. Felly, mae'n anodd dyrannu tasgau ac atebolrwydd i sicrhau llwyddiannau.

Yn ogystal, nid yw strwythur presennol y Bwrdd yn adlewyrchu cyfansoddiad presennol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar draws Cymru nac yn adlewyrchu'r modd y maent yn gweithredu.

4.3. Rydym yn cynnig bod y Bwrdd yn cael ei ailstrwythuro fel bod mwy o ffocws yn perthyn i'w aelodaeth a bod ganddo tua 24 o aelodau. Byddai 12 ohonynt yn cynrychioli'r 12 grŵp clwstwr a nodwyd, a fyddai'n sicrhau bod o leiaf 8 yn gyflogwyr yn y sector preifat.

Byddai gweddill y Bwrdd yn gynrychiolwyr cynghori o amryw sefydliadau perthnasol.

4.4. Byddai gan bob un o'r cynrychiolwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd rôl benodol – boed yn rhan o dîm rheoli'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn rhan o grwpiau clwstwr y sectorau, yn rhan o'r grwpiau clwstwr cynorthwyol neu'n rhan o'r grwpiau cynghori.

| **Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol** | **Grwpiau Clwstwr Busnes Sectorau** | **Grwpiau Clwstwr Cynorthwyol** | **Cynrychiolwyr Cynghori** |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Darparwyr | Cyngor Powys |
| Rheolwr y Bartneriaeth | Twristiaeth | Y Warant i Bobl Ifanc | Cyngor Ceredigion |
| | Ynni | | Addysg Uwch |
| | Y Sector Cyhoeddus | | Addysg Bellach |
| | Trafnidiaeth | | Addysg, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion |
| | Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod | | Y Ffederasiwn Busnesau Bach |
| | Digidol | | Gyrfa Cymru |
| | Menter | | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| | Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi | | Yr Adran Gwaith a Phensiynau<br>Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru |
| | Cyflogaeth a Sgiliau | | Llywodraeth Cymru |

**5.** Rydym yn hyderus y bydd y dull hwn o weithredu'n cyflawni ein hymrwymiadau i Lywodraeth Cymru ac yn darparu darlun cynhwysfawr o sgiliau a chyflogaeth ar draws rhanbarth y canolbarth.

## 6. Goblygiadau cyfreithiol

6.1. Nid oes goblygiadau cyfreithiol yn codi o’r adroddiad hwn.

## 7. Goblygiadau o ran adnoddau dynol

7.1. Nid oes goblygiadau o ran adnoddau dynol yn codi o’r adroddiad hwn.

## 8. Goblygiadau ariannol

8.1. Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn.

## 9. Atodiadau

9.1. Ynghlwm – Dogfen Gynllunio’r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

9.2. Ynghlwm – Templed Cynllun Gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol